| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **23 EBRILL, 2015** |
| **TEITL:** | **YMCHWILIAD IAITH – Y DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD ALLANOL** |
| **AWDUR:** | **UWCH REOLWR DEMOCRATIAETH A CHYFLAWNI** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR.** |

1. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ceisio dilyn trefn o ymchwilio mewn fwy o fanylder i feysydd penodol, ar batrwm ymchwiliadau craffu, ac wedi cytuno cynnal yr ymchwiliad cyntaf i edrych i fewn i'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol .

2. Diben yr Ymchwiliad yw:-
   a) edrych ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a
   b) sicrhau a hwyluso cydymffurfiaeth a chymal 3.3.5. Y Cynllun Iaith: "Byddwn yn cyfarwyddo staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol, ac i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd."

   - Gall y meysydd dan sylw gynnwys:
   - ➢ Pwyso ar gyrff a mudiadau allanol i ddarparu cyfieithu-ar-y-pryd
   - ➢ Cadeirio cyfarfodydd dwyieithog a sut i annog o'r Gadair
   - ➢ Cyfrannu at gyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg
   - ➢ Sut i gyfathrebu'r anghenion yn effeithiol a chofiadwy

2. Mae'r Ymchwiliad wedi cychwyn ar ei waith a bydd yn cynnal ei ail gyfarfod y mis hwn, pan y bydd yn cyfweld yr Arweinydd, Aelod Cabinet perthnasol a'r Prif Weithredwr ar eu profiad hwy ar y defnydd o'r Gymraeg. Yn ogystal, bydd yr Ymchwiliad yn cyfweld Dr Enlli Thomas o Brifysgol Bangor a fydd yn cynghori'r Ymchwiliad ar y seicoleg am y defnydd o iaith.

3. Tra mae hyn ar y gweill, mae'r Ymchwiliad hefyd yn dosbarthu dau holiadur, y naill i Reolwyr ac Aelodau Etholedig o'r Cyngor sydd yn mynychu cyfarfodydd allanol a'r llall yn cael ei anfon at gyrff allanol y mae'r Cyngor yn anfon cynrychiolwyr iddynt.

4. Bydd yr holiadur i reolwyr ac aelodau yn ceisio ymateb gonest ar eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol a cheisio gwyntyllu'r hyn sydd ei angen iddynt fod yn fwy hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyfundrefnol o'r fath

5. Bydd yr holiadur i gyrff allanol yn holi, ymysg pethau eraill, pa ddarpariaeth a wneir gan gyrff allanol a pa drefniadau sydd yn eu lle i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd

6. Bydd yr Ymchwiliad wedyn yn edrych ar feysydd thematig i weld beth y gellir ei ddysgu er mwyn hybu'r defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd

7. Y gobaith yw y bydd yr Ymchwiliad wedi cwblhau ei waith fel bod modd iddo adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Iaith erbyn ei gyfarfod yn yr hydref.

8. O fod yn cwblhau hwn, bydd angen i'r Pwyllgor benderfynu maes o law ar y maes y mae am ymchwilio iddo nesaf wedi trafodaeth bellach gyda'r Pencampwr Iaith.